

## Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-16-02(min)

### COFNODION

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2002

**Amser:** 9.00am tan 12.05am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Presennol:** **Aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Kirsty Williams  
(Cadeirydd) Brycheiniog a Maesyfed

Geraint Davies Rhondda

Brian Gibbons Aberafan

Jane Hutt (Gweinidog) Bro Morgannwg

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Dai Lloyd Gorllewin De Cymru

Val Lloyd Dwyrain Abertawe

David Melding Canol De Cymru

Janet Ryder Gogledd Cymru

#### **Swyddogion Yn Bresennol**

Dr Ruth Hall Prif Swyddog Meddygol

Ann Lloyd Cyfarwyddwraig, GIG Cymru

Brian Mitchell Rhaglen Newid Strwythurol y GIG

Mike Ponton

Tîm Cynllunio a Strategaeth Iechyd a Lles

Helen Thomas

Cyfarwyddwraig, Grwp Gofal Cymdeithasol

**Ysgrifenyddiaeth:**

Jane Westlake

Clerc y Pwyllgor

Claire Morris

Dirprwy Glerc y Pwyllgor

## **Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Eilyddion**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jocelyn Davies, Lynne Neagle a Rod Richards. Cymerodd Janet Ryder le Jocelyn Davies a chymerodd Val Lloyd le Lynne Neagle.

1.2 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Geraint Davies, fferylllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Brian Gibbons, meddyg teulu cofrestredig ac yn briod â gweithwraig gymdeithasol ym maes gofal plant;
- Dai Lloyd, ymarferydd cyffredinol ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Val Lloyd, aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe; nyrs gofrestrdig ac athrawes nyrsys.

## **Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog**

### **Papur: HSS-16-02(p.1)**

2.1 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau:

#### Adran 1: Materion Strategaeth

- Roedd costau'r broses benodi Cadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol (BILl) a Phrif Weithredwyr, a'u cyflogau, wedi'u cynnwys yn amcangyfrif costau trosiannol rhaglen newid strwythurol y GIG a'r costau rhedeg dilynol.
- Roedd yr angen am hyblygrwydd o ran ffiniau comisiynu wedi'i gydnabod. Byddai BILl yn gyfrifol am gomisiynu gofal sylfaenol a chymunedol ar gyfer ardal eu bwrdd eu hunain ond gallent gomisiynu gwasanaethau eilaidd mewn partneriaeth â'u cymdogion. Byddai swyddfeydd rhanbarthol yn cefnogi trefniadau comisiynu partneriaeth o'r fath.

- Roedd Grwp Llywio Adnoddau Dynol (HR) wedi'i sefydlu ar ddechrau'r rhaglen newid strwythurol ac roedd pob undeb llafur oedd â diddordeb yn y gwasanaeth iechyd wedi cymryd rhan yn y grwp hwn. Un o'r materion yr oedd y grwp yn ei ystyried oedd yr angen am gysondeb mewn telerau ac amodau ledled Cymru, ag un trefniant contract unigol ar gyfer pobl a gyflogir gan BILl.
- Roedd creu Cydbwyllgor Ymgynghorol Cymru Gyfan ar gyfer yr holl staff BILl a'r rheini oedd yn darparu gwasanaeth cyffredin ar gyfer mwy nag un BILl yn cael ei ystyried.
- Byddai staff gwasanaethau cyffredin yn parhau yn eu lleoliadau presennol. Byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau'r defnydd mwyaf o adeiladau'r Cynulliad a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, yn unol â pholisi adeiladau'r Cynulliad.
- Roedd y sector gwirfoddol wedi cymryd rhan yn y rhaglen newid strwythurol drwy Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol. Comisiynwyd adroddiad "Building the Bridges" i sicrhau y gellid adeiladu a diogelu'r perthnasau rhwng y sector gwirfoddol a'r GIG, a nodwyd mai Helen Howson oedd y prif swyddog a fyddai'n gweithio â'r sector gwirfoddol drwy'r newidiadau.
- Byddai rôl y sector gwirfoddol yn llawer cryfach. Byddai dau aelod o'r sector gwirfoddol ar y bwrdd, yn ogystal ag aelod lleyg a chynrychiolydd gofalwyr.
- Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal â Chynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol, a oedd wedi cyflwyno cynnig ar gyfer Swyddog Iechyd a Lles ym mhob un o'r Cynghorau i weithio â BILl.

## Adran 2: Perfformiad y GIG

- Cynhyrwyd y strategaeth amseroedd aros gan y Grwp Llywio Amseroedd Aros ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor, ac nid oedd unrhyw gynlluniau i'w newid.
- Rhyddhawyd £900,000 o arian ychwanegol eleni i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau angiograffeg i sicrhau na fyddai unrhyw un yn aros yn hwy na chwe mis erbyn mis Ebrill nesaf, yn unol â Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) Clefyd Coronaidd y Galon.

## Adran 3: Gwella Iechyd ac Ymdrin ag Anghydraddoldebau

- Gofynnwyd i Gomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (SHSCW) i edrych ar y mater o reolyddion calon mewn cysylltiad â Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Clefyd Coronaidd y Galon.
- Roedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y Strategaeth Maethiad. Dylai'r pwyllgor ystyried ei chnnwys yn rhaglen yr hydref.

## Adran 4: Arolygu a Rheoleiddio Ansawdd

- Byddai adroddiad ar sut yr oedd yr arian ychwanegol ar gyfer llawdriniaeth orthopedig wedi'i ddefnyddio gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn cael ei ddarparu yn yr Hydref, ynghyd ag ymateb yr Ymddiriedolaeth i adroddiad y Comisiwn Gwella Iechyd (CHI) ar yr adolygiad rheolaeth glinigol o wasanaethau aciwt cyffredinol.

## Adran 5: Gofal Cymdeithasol

- Byddai adroddiadau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar oedi o ran trosglwyddo gofal yn parhau i gael eu cynnwys yn yr adroddiad misol.
- Roedd system cyflwyno adroddiadau newydd ar waith a fyddai'n darparu tystiolaeth well o'r rhesymau dros yr oedi o ran trosglwyddiadau.
- Cyfrifoldeb awdurdodau lleol oedd pennu lefelau ffioedd.
- Roedd Grŵp Strategaeth Gofal Cymru, o dan gadeiryddiaeth Ken Woodhouse, yn cynnwys darparwyr cartrefi gofal a chynrychiolwyr llywodraeth leol a byddant yn edrych ar lefelau ffioedd fel rhan o'r strategaeth ehangach ar gyfer gofal hir dymor i'r henoed. Byddai canfyddiadau'r Grŵp yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor.
- Yn ogystal byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried ystod o waith ymchwil ar gartrefi gofal.
- Roedd y Gweinidog wedi mynegi ei phryderon o ran y diffyg cyfleusterau ar wahân ar gyfer cleifion mewnol a'r diffyg cyfleusterau gwahanu priodol ymhlith ieuenctid cythryblus neu aflonyddgar yn y Cyfleuster Ieuenctid, Carchar y Parc EM i Arglwydd Warner, Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- Byddai gweithgor yn nodi bylchau mewn trefniadau amddiffyn plant ar gyfer plant oedd wedi dioddef trais yn y cartref neu a fu'n dyst i drais yn y cartref.

2.2 Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau ystyried p'un a fyddent yn dymuno cyfarfod â'r Athro Woodhouse ac aelodau o Grŵp Strategaeth Gofal Cymru er mwyn trafod eu gwaith yn yr hydref.

## Adran 7: Sefyllfa Ariannol

- Amcangyfrifiwyd y byddai'r gost o redeg y strwythurau GIG newydd yn £73.6m, sef yr un faint â'r strwythur presennol.
- Roedd amcangyfrif y costau trosiannol o £12.5m i £15.5m yn gysylltiedig yn bennaf â materion hyfforddi a datblygu staff, a sicrhau ymrwymiad staff. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn paratoi'r gwasanaeth ar gyfer newid i atebolrwydd lleol.
- Byddai'r costau trosiannol yn cwmpasu cyfnod o bedair blynedd.
- Byddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymgymryd â phroses graffu annibynnol ar y costau oedd yn gysylltiedig â rhaglen newid strwythurol y GIG.

## Atodiad C: Is-ddeddfwriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Gofynnwyd am eglurhad ar yr hyn a gynigiwyd o dan HSC 32-02 – Gwella, drwy orchymyn/ orchmynion Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998 mewn cysylltiad â phartneriaethau/strategaethau lleihau Troseddau ac Anhrefn.

## Camau Gweithredu

- Byddai copïau o "Building the Bridges" yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau.
- Y Gweinidog i ysgrifennu at Dai Lloyd AC â manylion ar gostau recriwtio cadeiryddion BILl a phrif weithredwyr.
- Adroddiad ar ganfyddiadau Grwp Strategaeth Gofal Cymru i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn yr hydref.
- y Cwnsler i Bwyllgorau'r Cynulliad i ddarparu eglurhad ar HSC 32-02.

## **Datganiad ar Wasanaethau Trydyddol i Blant**

2.3 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd arfaethedig o £1m ar gyfer gwasanaethau trydyddol i blant. Amgaeir copi yn Atodiad A.

2.4 Mewn ymateb i'r datganiad, gwnaeth yr Aelodau'r pwyntiau canlynol:

- Nid oedd y cyfan o adroddiad y Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol (SHSCW) ar wasanaethau trydyddol i blant yng Nghymru yn destun ymgynghoriad.
- Petai Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) yn gwrthwynebu argymhelliad yn yr adroddiad byddai'n rhaid iddo ddarparu cynnig arall wedi'i gostio, a fyddai'n faich ar y CIC arferol.
- Roedd yn rhaid i lawer o blant yng Nghymru deithio pellteroedd maith er mwyn cael mynediad i wasanaethau arbenigol. Mynegwyd pryder ynglŷn â lefel y gefnogaeth oedd ar gael i rieni a gofalwyr tra roeddent oddi cartref.

2.5 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Roedd cyfranogiad CIC mewn ymgynghoriad ar unrhyw newidiadau i wasanaethau wedi'i nodi yn 1991. Gallent ofyn i'r Cynulliad am gymorth pe byddai ei angen arnynt o ran sut i ymdrin â'r ymgynghoriad hwn.
- Roedd yr arian ar gyfer y pedwar gwely gofal dibyniaeth uchel yn Ysbyty Treforys wedi'i gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a dylai'r gwelyau fod ar gael o fewn yr wythnosau nesaf.
- Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn edrych ar y gwasanaethau ar gyfer rhieni/gofalwyr yr oedd yn rhaid iddynt deithio o ardal eu cartref er mwyn i'w plentyn gael triniaeth.

2.6 Ailadroddodd y Cadeirydd bod y gofyniad i CICs ddarparu dewisiadau eraill wedi'u costio yn hirsefydlog ac nid rhywbeth oedd yn cael ei orfodi dim ond ar gyfer yr ymgynghoriad ar adroddiad SHSCW.

## **Eitem 3: Dyfodol Gofal Sylfaenol**

### **Papur: HSS-16-02(p.2)**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gofal Sylfaenol yng Nghymru. Dywedodd

fod gofal sylfaenol wrth wraidd y gwasanaeth iechyd a rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith oedd yr allwedd ar gyfer gwella iechyd yng Nghymru. Roedd gwaith eisoes wedi dechrau ar roi rhannau o'r Cynllun Gweithredu ar waith, a byddai'r ail gam yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2003.

### 3.2 Mewn ymateb i gyflwyniad y Gweinidog, gwnaeth yr Aelodau'r pwyntiau canlynol:

- Ar hyn o bryd roedd 135 o swyddi meddygon teulu gwag yng Nghymru.
- Byddai cynnydd o 30% yn yr arian ar gyfer gofal cynradd yn angenrheidiol er mwyn rhoi'r contract meddyg teulu newydd ar waith yn llawn.
- Roedd angen oriau gweithio hyblyg ar feddygon teulu a mynediad i ofal plant, gan fod y rhan fwyaf o feddygon teulu yn ferched.
- Byddai BILl yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yn y dyfodol felly roedd yn hanfodol bod ganndynt yr adnoddau a'r arbenigedd i reoli hyn yn effeithiol. Yn ogystal roedd angen cydlynu â darpariaeth y tu allan i oriau arferol yr adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Dylid rhoi proffil uwch i ddeintyddiaeth yn y Cynllun Gweithredu.
- Roedd angen i Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol (NSFs) fod wedi'u hariannu'n ddigonol neu byddent yn digalonni staff na fyddent yn gallu cyflawni'r safonau yr oedd disgwyl iddynt eu cyflawni.
- Roedd sawl ffordd newydd o gael mynediad i'r gofal sylfaenol, e.e. Galw Iechyd Cymru, ond roedd cwmpas sylweddol ar gyfer datblygu rôl y fferylllydd cymunedol. Roedd angen datblygu rôl yr ymarferydd nyrsio, gan fod sawl maes o ofal sylfaenol lle gallent ymgymryd â gwaith ychwanegol.
- Ni ddylai ffiniau proffesiynol fod yn rhwystr ar gyfer diwallu anghenion cleifion.
- Yr angen am gyfranogiad y sectorau gofal sylfaenol a chymunedol yn Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.
- Mynegwyd pryder mai prin iawn oedd y targedau mesuradwy a'r cerrig milltir a oedd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu.
- Roedd yn rhaid integreiddio'r Cynllun Gweithredu â mentrau eraill, megis y Strategaeth Maetheg, Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd, i fynd i'r afael â phroblemau yn y meysydd lle mae'r angen mwyaf.

### 3.3 Gwaneth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Cynllun Gweithredu wedi cwmpasu'r themau oedd yn deillio o'r contract meddyg teulu newydd, yn arbennig y cynnig ar gyfer cael contractau yn y practis. Cynigiwyd fframwaith ansawdd fel rhan o'r contract a byddai hyn yn gweithio ochr yn ochr â'r system gwella perfformiad mewn gofal sylfaenol.
- Roedd nifer o amrywiadau ar draws Cymru mewn darpariaeth y tu allan i oriau arferol ac roedd

hyn yn cael ei adolygu yn ganolog ar gyfer y GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Buddsoddiwyd £1m mewn recriwtio a chadw yn y GIG, i fynd i'r afael â materion megis trefniadau mamolaeth, tadolaeth a gofal plant.
- Byddai Strategaeth Ddeintyddol ar gyfer Cymru yn cael ei lansio ym mis Medi, a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau mynediad a recriwtio a chadw deintyddion yn y GIG. Byddai deintyddion yn cael eu penodi i BILl a byddent yn cymryd rhan yng ngweithrediad strategaethau lleol yn ogystal â'r Strategaeth Cymru Gyfan.
- Cydnabuwyd rôl fferyllwyr cymunedol wrth weithio ochr yn ochr â phobl broffesiynol eraill yn y gymuned ac roedd y gwaith o baratoi Strategaeth Fferylliaeth ddrafft ar y gweill.
- Roedd £10m ychwanegol wedi'i ddyrannu i awdurdodau iechyd i roi NSF's ar waith. O fis Ebrill 2003 byddai hyn yn cael ei ddyrannu yn uniongyrchol i BILl.
- Byddai Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol yn cael ei benodi i Adran GIG Cymru, i roi'r Strategaeth ar waith.
- Gallai Gwell Iechyd Gwell Cymru ddarparu cyfrwng ar gyfer cysylltu'r nifer o fentrau trawsbynciol oedd ar waith er mwyn gwella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

3.4 Dywedodd y Cadeirydd fod cyfle i gynnal cyfarfod ychwanegol yn yr hydref ac awgrymodd y dylid defnyddio hwn i edrych ar y Strategaethau Maetheg, Deintyddol a Fferyllol.

#### **Eitem 4: Deddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd – Gorchmynion Drafft Arfaethedig Rheoliadau Bwrdd Iechyd (Cymru)**

##### **Papurau: HSS-15-02(p.3) a HSS-15-02(p.3a)**

4.1 Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod y datganiad cyntaf yn yr Atodlen i'r Rheoliadau yn y golofn chwith "Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol o ran:-" yn cyfeirio at yr holl wasanaethau hynny a restrwyd yn y golofn dde ac i osgoi dryswch ac amwysedd byddai'r holl gyfeiriadau at "arbenigwr" neu "arbenigol" yn y golofn dde yn cael eu dileu.

4.2 O ganlyniad i'r eglurhad hwn, tynnodd David Medling ei welliannau yn ôl a chadarnhaodd Dai Lloyd fod hyn yn ateb cwestiynau i a iii a gyflwynwyd gan Blaid Cymru.

4.3 Mewn ymateb i'r cwestiynau eraill a godwyd gan Blaid Cymru, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd y cyfrifoldeb dros gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru wedi'i drosglwyddo i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a oedd wedi sefydlu gweithgor i edrych ar roi'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau ar waith. Byddai adroddiad ar gynnydd y grwp hwnnw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.
- Byddai Byrddau Iechyd Lleol yn gyrff statudol a chyflogwyr annibynnol, er bod gwaith yn digwydd i ddatblygu telerau ac amodau cyffredin ar gyfer y staff BILl i gyd. O dan y rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) byddai staff presennol yn

trosglwyddo eu hamodau presennol. Yn y pen draw y Gweinidog fyddai'n gyfrifol am benodi aelodau'r bwrdd.

4.4 Mynegwyd pryder y gallai swyddfeydd rhanbarthol esblygu yn awdurdodau iechyd.

## **Eitem 5: Blaenraglen Waith – Hydref i Ragfyr 2002**

### **Papur: HSS-16-02(p.4)**

5.1 Cytunwyd ar y Flaenraglen Waith. Byddai yn awr yn cael ei hanfon at Gadeiryddion Pwyllgorau eraill gan wahodd eu cyfranogiad, fel y bo'n briodol.

#### Camau Gweithredu

- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeiryddion Pwyllgorau gan amgáu'r Flaenraglen Waith.

## **Eitem 6: Cofnodion 27 Mehefin a 3 Gorffennaf 2002**

### **Papurau: HSS-13-02(min) a HSS-14-02(min)**

6.1 Cytunwyd ar gofnodion 27 Mehefin.

#### *Materion yn Codi*

### **Mesur Diwygio'r GIG a'r Proffesiynau Gofal Iechyd – Gorchymyn drafft arfaethedig Bwrdd Iechyd Lleol (Cymru) – Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau**

6.2 Gofynnodd David Melding pa un a oedd ei welliant i Atodlen 3, a ychwanegodd baragraffau newydd 8 a 9, wedi ei aileirio. Cadarnhaodd y Gweinidog bod hyn yn yr arfaeth a byddai copïau yn cael eu dosbarthu i David ac Aelodau eraill yn fuan.

6.3 Cytunwyd ar gofnodion 3 Gorffennaf.

#### *Materion yn Codi*

6.4 Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai ymateb i David Melding ar y defnydd o gyffuriau i drin sgitsoffrenia yn cael ei gyhoeddi o fewn y diwrnodau nesaf. Byddai copi yn cael ei ddsbarthu i'r Aelodau eraill.



## **Eitem 7: Unrhyw Fater Arall**

7.1 Cynghorodd y Cadeirydd yr Aelodau y cafwyd caniatâd y Llywydd i gynnal cyfarfod ychwanegol yn ystod gwyliau'r haf i drafod y Mesur Iechyd Meddwl drafft. Byddai hyn yn digwydd ar 11 Medi am 1.30pm ym Mae Caerdydd a byddai nifer o grwpiau â diddordeb yn cael eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor.

7.2 Cynigodd y Gweinidog fod yr Ymddiriedolaeth Zito yn cael ei hychwanegu at y rhestr o sefydliadau a wahoddir i gyflwyno tystiolaeth a chytunwyd ar hyn.

**Atodiad A**

## **Gwasanaethau Trydyddol i Blant**

### **Y Defnydd Arfaethedig o £1m**

Un o flaenoriaethau pennaf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru yw darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i fodloni anghenion iechyd plant. Ymdrinnir â gwella'r gwasanaethau hyn fel rhan o ddatblygu'r Fframwaith Gwasanaeth Plant Cenedlaethol a'i rhoi ar waith. Yn ogystal, rhaid i ni gymryd camau i roi argymhellion adroddiadau Redfern, Henedy a Carlile ar waith. Yn arbennig, rhaid i'r GIG yng Nghymru ddarparu gofal iechyd arbenigol, diogel, cynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer plant yn seiliedig ar fynediad teg, effeithiolrwydd a sefydlogrwydd.

Am rai blynyddoedd bellach, mae'r gwasanaethau arbenigol presennol i blant yng Nghymru wedi wynebu anawsterau, yn arbennig mewn cysylltiad â staffio ac o ran cynnal safonau o ansawdd uchel. Gan gydnabod hyn, gofynnodd y pum Awdurdod Iechyd i Gomisiwn Gwasanaeth Iechyd Arbenigol Cymru gynnal adolygiad o'r gwasanaethau hyn a pharatoi strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae SHSCW bellach wedi cynhyrchu'r 2 adroddiad hwn gyda'r '*Adolygiad o Wasanaethau Trydyddol i Blant*', yn darparu darlun cynhwysfawr o'r materion sydd angen mynd i'r afael â hwy a'r ail, '*Gwasanaeth Arbenigol, Dyfodol Gofal Iechyd Arbenigol ar gyfer Plant Cymru*', yn darparu strategaeth ar gyfer cynnal a datblygu gwasanaethau. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy yng Nghymru i sicrhau ansawdd a dyfodol hir dymor y gwasanaethau allweddol hyn. Mae'r strategaeth yn cynnig nifer o argymhellion; mae'r rhain yn cynnwys

ailgyflunio rhai gwasanaethau arbenigol yn Ne Cymru, cryfhau gwasanaethau arbenigol presennol a a pharhau trefniadau partneriaeth ag ysbytai arbenigol yn Lloegr ar gyfer plant Cymru, lle y bo'n briodol. Yn ogystal mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu safonau ar gyfer y gwasanaethau ac i wella a chryfhau cyfleusterau paediatrig lleol.

Mae'r pum Awdurdod Iechyd yng Nghymru wedi ystyried y ddau adroddiad hwn yn ofalus ac wedi dechrau ymgynghoriad cyhoeddus eang ar yr argymhellion a wnaethpwyd gan SHSCW. Gobeithiaf y bydd pawb sydd â diddordeb yn cymryd y cyfle i roi sylwadau ar y ffordd ymlaen arfaethedig cyn diwedd y cyfnod ymgynghori ar 30 Medi.

Ar 2 Mai, mewn ymateb i rai o'r materion hanfodol a amlygwyd gan Adolygiad yr SHSCW, cyhoeddais gyfraniad o £1 miliwn i'w fuddsoddi ar unwaith mewn gwasanaethau arbenigol plant yng Nghymru. Ar ôl ystyriaeth ofalus, rwyf wedi penderfynu dyrannu'r adnoddau hyn ar sail reolaidd fel a ganlyn: -

### **Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd**

Bydd £520,000 yn mynd i Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd i ariannu pum swydd ymgynghorwyr sydd eu hangen i ddiogelu a chynnal gwasanaethau presennol. Maent yn cynnwys oncoleg haematolegol, niwroleg, wroleg, gastroenteroleg ac endocrinoleg.

### **Ysbyty Treforys, Abertawe**

Bydd £400,000 yn mynd i Ysbyty Treforys Abertawe. Mae £170,000 ohono wedi'i glustnodi o Ebrill 2003, i hybu'r trefniadau partneriaeth rhwng Abertawe a Bryste ar gyfer gwasanaethau gwefus a thafnod hollt. Bydd yr adnoddau hyn yn ariannu llawfeddyg gwefus a thafnod hollt sylfaenol, arbenigwr therapi lleferydd ac iaith ychwanegol, arbenigwr therapi ychwanegol a chyfarwyddwr clinigol/clingwr ar gyfer y gwasanaeth.

Bydd £230,000 yn mynd at ariannu 4 gwely gofal dibyniaeth uchel yn y wardiau plant yn Ysbyty Treforys fel y gellir gofalu am blant mewn awyrgylch llawer mwy priodol y tu allan i'r unedau gofal dibyniaeth uchel a gofal dwys.

### **Ysbyty Plant Alderhay, Lerpwl**

Mae £160,000 wedi'i ddyrannu i Ysbyty Plant Alderhay, Lerpwl, i gyflawni rhan Cymru o'r rhaglen ddatblygu sydd eisoes ar waith i wella gwasanaetau arbenigol yn cynnwys cryfhau lefelau staffio meddygol a nyrsio.

### **Ysbyty Plant Bryste, Bryste**

£160,000 – i gwrdd â chost y bartneriaeth rhwng Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd ac Ysbyty Plant Bryste lle darperir gwasanaethau areneg paediatrig cleifion mewnol ar gyfer plant o Dde Cymru.

Cydnabyddaf os, yn dilyn canlyniad ymgynghoriad cyhoeddus, yr anogir a gweithredir cynigion i wneud y bartneriaeth hon yn drefniant parhaol, yna telir am gostau rheolaidd y bartneriaeth hon.

Gan y bydd yn cymryd amser i recriwtio i rai o'r swyddi hyn, bydd arbedion yn ystod y flwyddyn o oddeutu £290,000 yn ystod y flwyddyn ariannol hon. I fanteisio i'r eithaf ar yr arian sydd ar gael eleni byddwn yn defnyddio'r arbedion untro hyn i wella cyfleusterau a chyfarpar yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac ysbytai Abertawe. Bydd hyn yn cynnwys 3 monitor cardiaidd ar gyfer y cyfleuster dibyniaeth uchel dros dro yn Ysbyty Treforys, peiriant ecocardiograffeg ar gyfer plant yn Ysbyty Singleton a menter rhestr aros wroleg paediatrig yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Mae'r pecyn buddsoddiad hwn wedi'i dargedu'n ofalus i wneud cyfraniad sylweddol tuag at ein nod o sicrhau bod plant Cymru yn cael mynediad teg a chyfartal i ofal iechyd arbenigol o'r radd flaenaf. Mae wedi'i gynllunio i sicrhau ymagwedd gytbwys ledled Cymru, gan ddiwallu anghenion ar unwaith o ran sefydlogi gwasanaethau diamddiffyn.

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth arfaethedig ar gyfer gwasanaethau arbenigol i blant Cymru yn dod i ben ar ddiwedd mis Medi. Ar ôl hynny, disgwyliaf dderbyn adroddiad gan y pum Awdurdod Iechyd yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad a gwneud argymhellion ar ddatblygiad y gwasanaethau hyn yn y dyfodol a'r safonau a ddylai fod yn berthnasol i'r gwasanaethau a gyflwynir.

Yn y cyfamser, rwyf wedi gofyn i Brif Swyddog Meddygol Cymru sefydlu grwp gorchwyl a gorffen arbenigol i helpu i'm hysbysu am yr argymhellion a wnaethpwyd a'r casgliadau a gyrhaeddwyd ar ddatblygu rhwydweithiau ar gyfer gofal paediatrig yng Nghymru, gan ystyried canlyniad yr ymgynghoriad pan gaiff ei dderbyn.

O fis Ebrill 2003, caiff y gwasanaethau hyn eu comisiynu gan Gomisiwn Iechyd newydd Cymru a bydd yn ofynnol iddo roi blaenoriaeth uchel i sicrhau gwasanaethau sy'n cyflawni'r safonau hyn a thrwy hynny yn darparu gwasanaethau iechyd arbenigol o'r radd flaenaf ar gyfer plant Cymru.